
University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

# PECYN GOROESI UCAS



Enw:

Ysgol/Coleg:

Enw Defnyddiwr UCAS:

Rhif Personol UCAS:

www.decymru.ac.uk

# PROSES UCAS

**Gall yr holl broses ymddangos yn ddyrys ac yn llethol, felly dyma amlinelliad defnyddiol i dy helpu i gadw ar ben popeth.**

## MEHEFIN-MEDI

### YMCHWIL

Gyda mwy na 37,000 o gyrsiau mewn mwy na 300 o sefydliadau, gall rhidyllu'r rhain i lawr i bum cwrs addas fod fel chwilio am nodwydd mewn tas wair!

Mae'n bwysig gwneud yn siŵr dy fod yn cychwyn arni'n gynnar. Y ffordd orau i ymchwilio yw mynd i Ddiwrnod Agored. Gelli di neilltuo dy le ar- lein: **www.decymru.ac.uk/diwrnodauagored**

## MEDI-IONAWR

### GWNEUD CAIS

Caiff y ceisiadau i UCAS eu gwneud rhwng mis Medi a mis Ionawr, a bydd y rhan fwyaf o'r broses hon yn cael ei gwneud yn yr ysgol neu'r coleg.

Y Datganiad Personol yw un o rannau pwysicaf y cais. Bydd tiwtoriaid y prifysgolion yn dibynnu ar y wybodaeth hon wrth iddynt benderfynu a ydynt yn derbyn y myfyrwyr, felly mae angen i'r datganiad fod yn adlewyrchiad da ohonot ti. Cei di fwy o arweiniad ar gyfer ysgrifennu dy Ddatganiad Personol yn y llyfryn hwn.

## IONAWR-MAI

### CYNIGION

Ar ôl i ti gyflwyno dy gais, byddi di'n dechrau cael cynigion. Dyma'r math o gynigion sydd:

- **Cynnig Diamod** yn cynnig lle ar gwrs prifysgol, lle mae'r ymgeisydd wedi cyrraedd pob un o'r meini prawf mynediad.
- **Cynnig Amodol** yn dibynnu a yw'r ymgeisydd am gyrraedd meini prawf penodol, fel llwyddo i gael graddau penodol neu bwyntiau tariff UCAS. Bydd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn derbyn y math hwn o gynnig. Yn ddibynnol ar y cwrs, mae'n bosib y bydd rhai prifysgolion yn dy wahodd di i gyfweliad neu glyweliad cyn gwneud eu penderfyniad.
- **Aflwyddiannus** sy'n golygu nad yw'r ymgeisydd wedi'i dderbyn ar y cwrs prifysgol hwnnw.

### DERBYN

Ar ôl i ti gael ymateb gan y prifysgolion, bydd angen i ti ddewis **cynnig pendant**, sef y cynnig y byddi di'n ei dderbyn fel dewis cyntaf. Gelli di hefyd ddewis **cynnig yswiriant** (ail ddewis), rhag ofn na fyddi di'n llwyddo i gael y graddau sydd eu hangen ar gyfer y dewis cyntaf. Mae'n bwysig bod gofynion mynediad y cynnig yswiriant yn is na gofynion y cynnig cadarn. Mae gan fyfyrwyr hyd at ddechrau mis Mai i ymateb i bob cynnig.

## CHWEFROR-MEHEFIN

### YMGEISIO AM GYLLID MYFYRWYR

Gall myfyrwyr o Gymru gael mwy o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, a gwneud cais am gyllid myfyrwyr ar: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### UCAS EXTRA

Os na fyddi di'n cael unrhyw gynigion o blith y pum dewis drwy UCAS, neu os wyt ti'n dewis gwrthod pob cynnig rwyt ti wedi'i wneud, bydd cyfle i ti ymuno ag UCAS Extra. Cynllun ail gyfle yw hwn i fyfyrwyr na fu'n llwyddiannus yn eu ceisiadau cychwynnol, ond dim ond i'r sefydliadau hynny sydd â lleoedd gwag y gellir gwneud cais. I gael mwy o wybodaeth, cer i: **www.ucas.com**

## AWST

### DIWRNOD CANLYNIADAU A'R SYSTEM GLIRIO

Os wyt ti'n dal i fod heb sicrhau lle mewn prifysgol ar ôl i ti gael dy ganlyniadau, neu os wyt ti wedi methu ag ateb y gofynion mynediad ar gyfer dy ddewis cadarn ac yswiriant, gelli di ddefnyddio'r System Glirio, sy'n ceisio dod o hyd i leoedd gwag i fyfyrwyr mewn prifysgolion.

## MEDI

### RWYT TI'N FYFYRIWR PRIFYSGOL

## DYDDIADAU CAU UCAS

### 15 HYDREF

Dyddiad cau ar gyfer cyrsiau meddyginiaeth, deintyddiaeth, milfeddygaeth, a cheisiadau i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt.

### 25 IONAWR

Prif ddyddiad cau ar gyfer ceisiadau UCAS. Mae'r dyddiad hwn hefyd yn berthnasol i rai ysgoloriaethau a bwrsariaethau.



# YMCHWIL: PETHAU I'W HYSTYRIED

| SEFYDLIAD | TEITL Y CWRS/ CYRSIAU | DIWRNODAU AGORED | MODIWLAU CYMRAEG AR GAEL? | YSGOLORIAETH/ BWRSARIAETH AR GAEL? | GOFYNION MYNEDIAD |
|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol De Cymru | | | | YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU PDC: | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

Coleg Cymraeg Cenedlaethol


Mae'r Brifysgol yn cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr sy'n astudio rhan o'u cwrs trwy gyfrwng Cymraeg. Mae'r Brifysgol hefyd yn rhan o gynllun **ysgoloriaeth Coleg Cymraeg Cenedlaethol**. Darllena mwy:

# DATGANIAD PERSONOL

**Yn aml iawn, mae myfyrwyr yn nodi mai'r Datganiad Personol yw'r darn mwyaf heriol o'r cais UCAS. Mae'n gallu bod yn anodd sicrhau dy fod yn cynnwys dy holl brofiadau a llwyddiannau o fewn 47 o linellau neu 4,000 o lythrennau.**

## MAP MEDDWL

Cyn i ti ddechrau gweithio ar dy Ddatganiad Personol, mae angen i ti ystyried yr hyn rwyt ti am ei gynnwys ynddo, a'r hyn rwyt ti am ddweud wrth y prifysgolion. Defnyddia'r diagram isod er mwyn dechrau mapio dy syniadau, llwyddiannau a phrofiadau.



# YSGRIFENNU DY DDATGANIAD PERSONOL

**Er mwyn dechrau drafftio dy ddatganiad personol, defnyddia dy syniadau o'r dudalen flaenorol i ysgrifennu atebion byr i'r cwestiynau canlynol.**

## PAM WYT TI EISIAU ASTUDIO'R CWRS HWN?

Meddylia am dy astudiaethau presennol:
- Pa elfennau wyt ti'n eu mwynhau?
- Pa feysydd hoffet ti astudio ymhellach ynddyn nhw?

Beth sy'n apelio'n benodol atat ti am y cwrs rwyt ti wedi'i ddewis? Pam wyt ti wedi dewis y cwrs hwn?

Oes gen ti nod gyrfaol? Oes cysylltiad rhwng hwn a'r cwrs rwyt ti wedi ei ddewis?

Sut wyt ti'n dangos dy frwdfrydedd am dy bwnc? Pa ddarllen ychwanegol, cyrsiau ar-lein, gweminarau neu bodlediadau wyt ti wedi eu mwynhau?

## BETH YW DY GRYFDERAU MWYAF A DY SGILIAU ALLWEDDOL?

Paid bod ag ofn siarad yn bositif amdant ti dy hun – dyma dy gyfle i sefyll allan o'r dorf!

### COFIA DY ABC

**Ystyria sut mae'r hyn rwyt ti wedi'i gyflawni yn berthnasol i'r cwrs rwyt ti eisiau ei astudio.**

**ACTIFEDD**

**Beth wyt ti wedi ei wneud, cyflawni, darllen neu gael profiad ohono?**

**BUDD**

**Sut wnest ti fuddio o'r actifedd neu gweithgaredd?**

**CWRS**

**Sut mae hwn yn berthnasol i'r cwrs rwyt ti'n gwneud cais amdano?**



## BETH AM DY LWYDDIANNAU ERAILL?

Gwna rhestr o dy lwyddiannau yn yr ysgol, fel dy gymwysterau, cyfrifoldebau, gwobrau, tystysgrifau ayyb.

Gwna rhestr o unrhyw weithgareddau allgyrsiol rwyt ti wedi bod yn rhan ohonyn nhw, e.e. grwpiau drama neu dimau chwaraeon, yn cynnwys unrhyw lwyddiannau.

## PA SGILIAU A PHROFIAD SYDD GENNYT TI SY'N BERTHNASOL I ADDYSG UWCH?

Wyt ti wedi gwneud cyfnod o brofiad gwaith neu oes gennyt ti swydd ran amser? Os felly, sut wyt ti wedi buddio o hyn? A oes gennyt ti gyfrifoldebau ychwanegol megis gofalu am frawd neu chwaer neu berthynas?

## BETH YW DY HOBÏAU?

## NODIADAU

Os hoffet ti gael ychydig gymorth ac arweiniad gyda dy ddatganiad personol neu gais UCAS, cysyllta â PDC. E-bostia **ysgolionacholegau@decymru.ac.uk** neu chwilia amdanom ar Unibuddy – chwilia am 'Sgwrsio â ni' ar **www.decymru.ac.uk**.

# SUT I BARATOI DY DDATGANIAD PERSONOL

## 1 PARATOI

- ✓ Dim ond un datganiad personol sydd gen ti, felly dylet ti lunio rhestr o bopeth rwyt ti am ei gynnwys ynddo.
- ✓ Cofia y bydd yr un datganiad yn cael ei anfon at yr holl brifysgolion rwyt ti'n ymgeisio amdanynt.
- ✓ Rho ddigon o amser i ddarllen trwyddo fe a'i newid gan ddechrau ar y gwaith drafftio'n gynnar.
- ✓ Ymchwil! Ymchwil! Ymchwil! Edrycha ar wefannau prifysgolion gwahanol i weld pa sgiliau a rhinweddau y maen nhw'n chwilio amdanynt.

## 2 PETHAU I'W CYNNWYS

- ✓ Bydd angen i ti esbonio dy resymau dros ddewis y pwnc.
- ✓ Sut fydd dy astudiaethau presennol a blaenorol yn berthnasol i'r cwrs rwyt ti wedi'i ddewis.
- ✓ Sut fydd dy brofiad gwaith ac unrhyw swyddi rhan-amser yn berthnasol i'r sgiliau sydd angen ar gyfer y cwrs rwyt ti wedi'i ddewis.
- ✓ Dylet ti sôn am unrhyw hyfforddiant rwyt ti wedi ymgymryd â fe, ac unrhyw lwyddiannau perthnasol.

## 3 SUT I'W YSGRIFENNU

- ✓ Bydd dy gyflwyniad – h.y. y ffordd rwyt ti'n dechrau'r datganiad personol – yn hollbwysig. Bydd angen sicrhau dy fod yn dal sylw'r person sydd yn ei ddarllen.
- ✓ Dylet ti greu strwythur clir a chryno ar gyfer dy ddatganiad personol.
- ✓ Bydd angen gwirio dy ramadeg, dy sillafu a dy atalnodi.
- ✓ Dylet ti bwysleisio dy ymrwymiad, dy frwdfrydedd a dy sgiliau.

## 4 MANYLION TECHNEGOL

- ✓ Paid â chopïo! Mae systemau meddalwedd UCAS yn gallu dod o hyd i destun sydd wedi cael ei gopïo. Gall hwn effeithio ar dy siawns o gael dy dderbyn ar gwrs prifysgol.
- ✓ Bydd angen ysgrifennu hyd at 47 o linellau neu 4,000 o lythrennau (sy'n cynnwys bylchau).

**GWYLIA'N SGWRS NI AM RAGOR O GYNGOR AR YSGRIFENNU DY DDATGANIAD PERSONOL:**

# DER I ADNABOD PDC

Rydym yn edrych ymlaen at gwrdd â thi a dy groesawu i PDC! Gelli ddod o hyd i ddyddiadau ein Diwrnodau Agored nesaf ar ein gwefan: **www.decymru.ac.uk**

Mae llawer o ffyrdd i gysylltu â ni a darganfod mwy. Trwy ein gwefan, gelli sgwrsio â myfyrwyr a thiwtoriaid, mynd ar deithiau rhithwir a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennyt ti am astudio yn PDC.

**SGANIA HWN I NEILLTUO DY LE AR DDIWRNOD AGORED**




Gelli siarad â myfyrwyr a staff academaidd PDC ar-lein unrhyw bryd. Chwilia am 'Sgwrsio â ni' ar **www.decymru.ac.uk**







# DIWRNODAU AGORED:
## BETH YDW I EISIAU GWYBOD?

**Noda rai cwestiynau yr hoffet eu gofyn yn ystod Diwrnodau Agored y Brifysgol, megis cwestiynau am strwythur y cwrs neu ddulliau asesu, achrediadau a pha yrfaoedd y mae graddedigion wedi cychwyn arnynt, neu'r profiad gwaith a gynigir fel rhan o'r cwrs.**

1

4

2

5

3

6

# BYWYD MYFYRWYR




Yn PDC byddi di'n gwneud ffrindiau am oes, yn rhoi cynnig ar lawer o bethau newydd ac yn dod yn fwy annibynnol nag erioed o'r blaen. Byddi di'n rhan o amgylchedd cefnogol ar gyfer astudio a byw, lle mae myfyrwyr newydd yn teimlo'n gartrefol yn gyflym.

Er ein bod ni'n un o'r prifysgolion mwyaf yn y DU, fe weli di fod dy ddarlithwyr yn adnabod pob un o'u myfyrwyr yn ôl enw. Mae gennym gymuned amrywiol a chroesawgar, fe weli di bobl yn union fel ti, sy'n rhannu dy ddiddordebau, dy gredoau a dy gymhellion.

Dilyna ni am y newyddion diweddaraf o PDC. **#TeuluPDC**

Chwilio am:
**Prifysgol De Cymru**

**@De_Cymru**
**@USW_ysgol**

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi (Mawrth 2022), ond gall fod yn amodol i newid. Dylet edrych ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf: **www.decymru.ac.uk**

Mae Prifysgol De Cymru yn elusen gofrestredig. Rhif Cofrestru: 1140312